# TAG/TGAU

# Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau Ymarferol Gwyddoniaeth

# Canllawiau i Swyddogion Arholiadau

**TAG**

| | |
|---|---|
| **1400N50-1** | **Bioleg Uned 5 (Cymru)** |
| **1410N50-1** | **Cemeg Uned 5 (Cymru)** |
| **1420N50-1** | **Ffiseg Uned 5 (Cymru)** |

**TGAU**

| | |
|---|---|
| **3400N30-1** | **Bioleg Uned 3 (Cymru)** |
| **3410N30-1** | **Cemeg Uned 3 (Cymru)** |
| **3420N30-1** | **Ffiseg Uned 3 (Cymru)** |
| **3430N70-1** | **Gwyddoniaeth: Dwyradd Uned 7 (Cymru)** |
| **3440N40-1** | **Gwyddoniaeth Gymhwysol: Gradd Unigol Uned 4 (Cymru)** |
| **3445N50-1** | **Gwyddoniaeth Gymhwysol: Dwyradd Uned 5 (Cymru)** |
| **3440N30-1** | **Gwyddoniaeth Gymhwysol: Gradd Unigol Uned 3 Sylfaenol – Yn seiliedig ar Dasg (Cymru)** |
| **3440NC0-1** | **Gwyddoniaeth Gymhwysol: Gradd Unigol Uned 3 Uwch – Yn seiliedig ar Dasg (Cymru)** |
| **3445N40 -1** | **Gwyddoniaeth Gymhwysol: Dwyradd Uned 4 Sylfaenol – Yn seiliedig ar Dasg (Cymru)** |
| **3445ND0-1** | **Gwyddoniaeth Gymhwysol: Dwyradd Uned 4 Uwch – Yn seiliedig ar Dasg (Cymru)** |

**Cyngor cyffredinol ar draws arholiadau TAG/TGAU Gwyddoniaeth Ymarferol**

Bwriedir i'r cyfarwyddiadau hyn gael eu defnyddio ar y cyd â Chyfarwyddiadau'r CGC ar Gynnal Arholiadau (I.C.E.) a'r cyfarwyddiadau pwnc-benodol a ddarperir.

**Derbyn a Storio Papurau Cwestiynau**
Oherwydd amseru'r arholiadau hyn, yn aml bydd angen cyhoeddi'r deunyddiau hyn cyn derbyn cofrestriadau. Mae'n bwysig felly cyflwyno cofrestriadau rhagarweiniol erbyn 10 Hydref.
Ar ôl eu derbyn, dylid storio'r holl ddeunyddiau, cyfarwyddiadau a phapurau cwestiynau yn unol â rheoliadau'r CGC. Dim ond yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau pwnc-benodol y dylid caniatáu mynediad (cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn y ddogfen hon). Pan nad ydynt yn cael eu defnyddio dylid dychwelyd yr holl ddogfennau i'r cyfleuster storio diogel. Ni ddylid eu storio mewn ystafelloedd dosbarth, ystafelloedd paratoi nac yn unrhyw le ar wahân i gyfleuster storio diogel y ganolfan. Rhaid bod cofnod priodol ar waith i nodi pan fo'r dogfennau hyn yn cael eu defnyddio / yn cael eu dychwelyd.

**Trefniadau i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad**
Rhaid cynnal arholiadau ymarferol dan amodau a fydd yn rhoi'r cyfle i'r holl ymgeiswyr gyflawni eu tasgau ac i ddangos eu lefelau cyrhaeddiad gwirioneddol yn y pwnc dan sylw. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal arbennig i sicrhau nad yw deunydd arddangos (megis siartiau wal), a all fod o gymorth i ymgeiswyr, i'w gweld yn yr ystafell arholiadau.

Dylid dilyn yr holl ofynion arferol sydd wedi'u cynnwys yn I.C.E. ynghylch posteri rhybudd, darparu clociau ac ati.

Lle bwriedir cynnal arholiad ar gyfer unrhyw ymgeiswyr mewn cyfeiriad heblaw cyfeiriad cofrestredig y ganolfan, e.e. yn rhan o gonsortiwm mewn canolfan arholiadau gofrestredig arall, e-bostiwch gwyddoniaeth@cbac.co.uk gyda manylion y ganolfan letyol a nifer yr ymgeiswyr sy'n cymryd rhan, er mwyn trefnu bod y papurau cwestiynau cywir yn cael eu cyhoeddi.

**Digwyddiadau yn ystod yr arholiad**
Dylid ymdrin ag unrhyw faterion ynghylch ymgeiswyr yn cyrraedd yn hwyr, argyfyngau yn ystod yr arholiad, neu unrhyw achos o gamymddwyn yn ôl cyfarwyddyd dogfen Gyfarwyddiadau'r CGC ar Gynnal Arholiadau.

**Trefniadau Mynediad**
Gellir caniatáu'r un trefniadau i ymgeiswyr sydd â threfniadau mynediad cymeradwy ar gyfer eu harholiadau ysgrifenedig yn ystod yr arholiadau ymarferol hyn.

**Papurau wedi'u haddasu**
Dylid gofyn am bapurau wedi'u haddasu yn y ffordd arferol drwy wefan y CGC.

**Monitro Ymweliadau**
Cynhelir ymweliadau monitro mewn hapsampl o ganolfannau er mwyn sicrhau bod yr uned asesu ymarferol yn cael ei gweinyddu'n gywir. Byddwn yn cysylltu â phob canolfan a ddewiswyd ar gyfer ymweliad o'r fath er mwyn cadarnhau'r trefniadau. Ar gyfer arholiadau TAG, rhaid sicrhau bod llyfrau labordy ar gael.

**TAG 1400N50-1 Bioleg Uned 5 (Cymru)**
**1410N50-1 Cemeg Uned 5 (Cymru)**
**1420N50-1 Ffiseg Uned 5 (Cymru)**

Mae'r unedau hyn yn cynnwys dwy dasg: Tasg Arbrofol a Thasg Dadansoddi Ymarferol

**Tasg Arbrofol**

Anfonir cyfarwyddiadau i athrawon/swyddogion arholiadau i ganolfannau ym mis Ionawr, a gellir eu hagor ar ôl eu derbyn. Ni ddylid datgelu'r cynnwys i unrhyw un nad yw'n ymwneud â pharatoi'r asesiad. Dylai'r swyddog arholiadau storio'r ddogfen hon yn ddiogel pan nad yw'r athro/athrawes yn ei defnyddio.

Caniateir i athrawon agor y ddogfen Cyfarwyddiadau Cydosod un wythnos cyn Prawf 1 i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n ddigonol er mwyn i'r ymgeiswyr gwblhau'r asesiad yn llawn. Er mwyn gwneud hyn, anogir athrawon i roi cynnig ar y dasg, gan gadw cyfrinachedd yr asesiad ar yr un pryd. Dylai'r swyddog arholiadau storio'r ddogfen hon yn ddiogel pan nad yw'r athro/athrawes yn ei defnyddio. Ni fydd fersiwn llawn y papur arholiad ar gael tan ddiwrnod yr arholiad

Bydd y mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr yn sefyll Prawf 1. Dylid ond defnyddio Prawf 2 mewn canolfannau lle nad yw'n bosibl i bob ymgeisydd sefyll y prawf ar ddiwrnod 1. Rhaid i ganolfannau y mae angen Prawf 2 arnyn nhw (i'w ddefnyddio ar ddiwrnod 2) fod eisoes wedi rhoi gwybod i CBAC eu bod am wneud hyn. Ni chaiff unrhyw ymgeisydd sefyll y ddau brawf.

Rhaid i ganolfannau drefnu bod y prawf yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl ar y dyddiad priodol ac os oes angen cynnal mwy nag un sesiwn ar yr un diwrnod, rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw ymgeiswyr mewn sesiynau diweddarach yn cael cyfle i gyfathrebu â'r rheini sydd eisoes wedi sefyll y prawf.

Rhaid i unigolyn ar wahân i'r athro pwnc oruchwylio'r arholiad. Rhaid i'r athro pwnc fod yn bresennol yn yr ystafell arholiad yn ystod y dasg arbrofol i ymdrin ag unrhyw anawsterau technegol y gall godi, yn cynnwys materion o ddiogelwch a (lle y bo'n briodol) dyfarnu unrhyw farciau a asesir gan yr athro.

Mae angen i athrawon sicrhau bod y marciau wedi'u hasesu gan athrawon wedi'u cofnodi ar flaen papur pob ymgeisydd. Darperir canllawiau am ddyfarnu'r marciau hyn yn y ddogfen "Cyfarwyddiadau Cydosod". Argymhellir bod athrawon yn cwblhau'r marciau a aseswyd gan athrawon ar ôl i'r ymgeiswyr gwblhau'r prawf ymarferol.

Bydd ar arholwyr yn gofyn am ganlyniadau'r athrawon ar gyfer y prawf. Rhaid cofnodi'r rhain yn glir ar y ffurflen "Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Ganolfannau" (sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen "Cyfarwyddiadau Cydosod"). Rhaid anfon y wybodaeth hon at yr arholwr ynghyd â'r papurau arholiad.

Dylai athrawon sicrhau bod digon o le i weithio gan bob ymgeisydd a bod pellter rhesymol rhwng pob ymgeisydd. Mae angen i bob ymgeisydd allu defnyddio'r cyfarpar a ddyrannwyd heb i neb darfu arno – un set o gyfarpar i bob ymgeisydd (ac eithrio lle nodir fel arall).

Cyn gynted y bydd yr asesiadau wedi'u cynnal, bydd yn rhaid i'r swyddog arholiadau storio'r papurau arholiad sydd wedi'u cwblhau yn ddiogel cyn eu hanfon at yr arholwr. Ni ddylai athrawon gael mynediad at bapurau arholiad sydd wedi'u cwblhau ar ôl i'r asesiadau gael eu gwneud. Nid oes angen mynediad i'r prawf hwn ar ymgeiswyr wrth gwblhau eu tasg dadansoddi ymarferol, ac ni ddylid caniatáu'r mynediad hwnnw.

**Tasg Dadansoddi Ymarferol**
Dylid cwblhau'r dasg dan yr un amodau â phapurau arholiad allanol. Rhaid i unigolyn ar wahân i'r athro pwnc Safon Uwch oruchwylio. Ni ddylai ymgeiswyr gael mynediad at eu tasg arbrofol wrth iddynt gwblhau eu tasg dadansoddi ymarferol.

**Ar ôl y prawf**
Rhaid i'r swyddog arholiadau storio gwaith yr ymgeiswyr yn ddiogel nes iddo gael ei anfon at yr arholwr. Dylid anfon y dasg dadansoddi ymarferol a'r dasg arbrofol gyda'i gilydd at yr un arholwr. Darperir labeli cyfeiriad a chofrestri presenoldeb i'r canolfannau ddiwedd Ebrill.

**Ystyriaeth Arbennig**
Dylid gwneud ceisiadau am ystyriaeth arbennig ar-lein drwy'r wefan ddiogel.

**TGAU 3440N30-1 Gwyddoniaeth Gymhwysol: Gradd Unigol Uned 3 Sylfaenol (Cymru)**
**3440NC0-1 Gwyddoniaeth Gymhwysol: Gradd Unigol Uned 3 Uwch (Cymru)**
**3445N40-1 Gwyddoniaeth Gymhwysol: Dwyradd Uned 4 Sylfaenol (Cymru)**
**3445ND0-1 Gwyddoniaeth Gymhwysol: Dwyradd Uned 4 Uwch (Cymru)**

**Asesiad Seiliedig ar Dasg**

Bydd yr asesiad yn seiliedig ar dasg hwn yn cael ei asesu'n allanol gan CBAC. Asesiad haenog ydyw sy'n cael ei gynnal yn ail hanner tymor yr hydref (Tachwedd – Rhagfyr). Argymhellir ei gynnal ym mlwyddyn olaf yr astudiaeth.
Anfonir cyfarwyddiadau i athrawon/swyddogion arholiadau ym mis Medi a gellir eu hagor ar ôl eu derbyn. Ni ddylid datgelu'r cynnwys i unrhyw un nad yw'n ymwneud â pharatoi'r asesiad. Dylai'r swyddog arholiadau storio'r ddogfen hon yn ddiogel pan nad yw'r athro/athrawes yn ei defnyddio.

Bydd papurau cwestiynau pob tasg ar gael i ganolfannau ar ddechrau mis Tachwedd.

Bydd y Swyddog Arholiadau yn rhoi'r nifer priodol o bapurau cwestiynau ar gyfer bob grŵp i'r athro ar y **dyddiad a drefnwyd** ar gyfer yr asesiad.

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno un pecyn cyflawn. Ni all ymgeiswyr gyfuno gweithgareddau o Becyn A a Phecyn B. Mae pecynnau sylfaenol ac uwch ar gael, ond ni all ymgeiswyr gyfuno gweithgareddau o becynnau sylfaenol ac uwch. Gall ymgeiswyr ennill gradd C ar y mwyaf ar y pecyn haen sylfaenol. Ni ddylai ymgeiswyr sefyll pecynnau haen sylfaenol ac uwch.

Dylai aelod o staff sy'n gyfrifol am addysgu TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol oruchwylio'r tasgau bob amser. Gall canolfannau ddefnyddio labordai ychwanegol, ar yr amod bod athro/athrawes y pwnc ar gael i oruchwylio pob ymgeisydd drwy'r amser. Dylai cefnogaeth dechnegol fod ar gael rhag ofn y bydd ei hangen.

Rhaid i'r canolfannau gofnodi presenoldeb ymgeiswyr ar gyfer pob sesiwn. Dylid defnyddio systemau gwybodaeth rheoli arbenigol (MIS / SIMS) y ganolfan i gynhyrchu cofrestr presenoldeb. Rhaid i'r gofrestr gynnwys rhif y ganolfan, enw'r pwnc a manylion cod y papur, dyddiad yr asesiad, a rhestr o rifau ac enwau'r holl ymgeiswyr a nodi p'un a oedd ymgeiswyr yn bresennol neu'n absennol o'r asesiad.

Nid yw'n ofynnol i staff y ganolfan dreialu gweithdrefnau cyn i ymgeiswyr ymgymryd â'r asesiad yn seiliedig ar dasg gan y dyfernir marciau i ymgeiswyr am gynllunio'u harbrawf.

Dylai staff y ganolfan atgoffa ymgeiswyr na chaniateir iddyn nhw drafod unrhyw agwedd ar yr asesiad ag unrhyw un drwy unrhyw ddull cyfathrebu. Bydd gweithredoedd o'r fath yn arwain at ymchwiliad i gamymddwyn gan ymgeisydd.

Cynhelir ymweliadau monitro mewn hapsampl o ganolfannau er mwyn sicrhau bod yr uned asesu yn seiliedig ar dasgau yn cael ei gweinyddu'n gywir. Bydd CBAC yn cysylltu â phob canolfan a ddewiswyd am ymweliad o'r fath i gadarnhau'r trefniadau.

Cwblheir yr uned mewn pedair sesiwn (Gradd Unigol) neu bum sesiwn (Dwyradd), pob un yn 60 munud o hyd.

Cwblheir Gweithgaredd 1 yn sesiynau 1-3 a bydd yn cynnwys cynllunio ymchwiliad, casglu canlyniadau, dadansoddi a gwerthuso. Cwblheir gweithgaredd 2 yn sesiwn 4 a bydd yn cynnwys dadansoddiad a gwerthusiad o'r data a roddwyd. Ar gyfer y Dwyradd, dylid cwblhau Gweithgaredd 3 yn sesiwn 5 ac mae'n cynnwys asesiad risg. Ar ddiwedd pob sesiwn dylid casglu'r papurau cwestiynau a'u dychwelyd i'r swyddog arholiadau i'w storio'n ddiogel. **Ni ddylai athrawon gael mynediad at y papurau cwestiynau wedi'u cwblhau ar ôl i'r asesiadau eu hunain ddigwydd.**
**Gweithgaredd 1**

Dylai ymgeiswyr weithio'n unigol i gynhyrchu eu cynllun. **Caniateir i ymgeiswyr weithio mewn grwpiau bach o ddim mwy na thri ymgeisydd i gyflawni'r weithdrefn ymarferol ar yr amod bod eu cynlluniau yn ddigon tebyg.** Dylai athrawon sicrhau bod gan bob grŵp ddigon o le i weithio a bod pellter rhesymol rhwng pob grŵp. Mae angen i bob grŵp allu defnyddio'r cyfarpar a ddyrannwyd heb i neb darfu arnynt. Lefel gyfyngedig o reolaeth fydd yna ar gyfer y gwaith hwn h.y. gall ymgeiswyr eraill gydweithio ag eraill i gael canlyniadau, ond rhaid iddynt roi eu hatebion eu hunain i'r cwestiynau a osodir. Ni ddylai fod angen i'r athro roi cymorth fel arfer, ond mae hynny'n cael ei ganiatáu os bydd cyfarpar yn methu. Dylai ymgeiswyr gwblhau adrannau dadansoddi a gwerthuso Gweithgaredd 1 dan lefel uchel o reolaeth, h.y. rhaid i ymgeiswyr weithio'n annibynnol. **Dylid cwblhau'r adran hon dan oruchwyliaeth ffurfiol heb unrhyw adborth na chymorth gan yr athro.**

Os yw ymgeiswyr yn methu â chynhyrchu cynllun addas ar gyfer Gweithgaredd 1, mae'n dderbyniol i'r athro roi cynllun addas iddyn nhw. Cynhwyswch gynlluniau'r athro a manylion yr ymgeiswyr sydd wedi cael y cynlluniau hyn ar y ffurflen 'Gwybodaeth sy'n ofynnol gan ganolfannau' sydd i'w chael yn y llyfryn Cyfarwyddiadau i Athrawon

Os nad yw ymgeiswyr yn llwyddo i gael canlyniadau ar gyfer Gweithgaredd 1, mae'n dderbyniol i'r athro roi canlyniadau heb eu fformatio iddynt. Cynhwyswch y canlyniadau heb eu fformatio a manylion yr ymgeiswyr sydd wedi cael data heb eu fformatio ar y ffurflen 'Gwybodaeth sy'n ofynnol gan ganolfannau'.

Ni ddylai ymgeiswyr gael mynediad at Weithgaredd 1 ar ôl iddyn nhw ddechrau Gweithgaredd 2.

**Gweithgaredd 2 (a Gweithgaredd 3 ar gyfer Dwyradd yn unig)**
Rhaid cynnal y gweithgaredd hwn dan lefel uchel o reolaeth, h.y. rhaid i ymgeiswyr weithio ar eu pennau eu hunain, rhaid bod pellter priodol rhyngddynt a rhaid eu goruchwylio. **Ni chaniateir adborth na chymorth gan athrawon.** Gellir gwneud hyn yn y labordy neu mewn neuadd arholiadau. Caniateir i Weithgaredd 2 gael ei oruchwylio gan aelod o staff sy'n gyfrifol am TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol, er y gall canolfannau ddewis defnyddio goruchwylwyr allanol. Ar ddiwedd y sesiwn dylid casglu'r papurau cwestiynau a'u dychwelyd i'r swyddog arholiadau i'w cadw'n ddiogel.

**Ar ôl y prawf**

Ni ddylai athrawon gael mynediad at y papurau cwestiynau wedi'u cwblhau ar ôl i'r asesiadau eu hunain ddigwydd

**Rhestr wirio anfon asesiadau**
**Rhaid i ganolfannau wirio:**

- bod asesiad ar gyfer pob ymgeisydd y nodwyd ei fod yn bresennol ar y gofrestr presenoldeb,
- bod enwau a rhifau'r ymgeiswyr ar yr asesiadau'n cyd-fynd â'r manylion ar y gofrestr presenoldeb
- bod y taflenni "Gwybodaeth sy'n Ofynnol gan Ganolfannau" ar gyfer pob tasg wedi'u cwblhau wedi'u cynnwys gyda'r asesiadau
- bod tasgau ar gyfer pob cymhwyster Gwyddoniaeth Gymhwysol mewn pecynnau ar wahân
- bod y gofrestr wedi'i hamgáu a bod copi wedi'i wneud a'i gadw yn y ganolfan

Dylid anfon pob asesiad wedi'i gwblhau i WJEC/CBAC, Uned A16/17, Ffordd Gwaelod Y Garth, Stad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5XF erbyn y dyddiad a nodwyd yn y ddogfen cyfarwyddiadau i athrawon ac ar yr amserlen.

**Ystyriaeth Arbennig**
Dylid cyflwyno ffurflen JCQ 10 i wneud ceisiadau am ystyriaeth arbennig.

| | | |
|---|---|---|
| **TGAU** | **3400N30-1** | **Bioleg Uned 3 (Cymru)** |
| | **3410N30-1** | **Cemeg Uned 3 (Cymru)** |
| | **3420N30-1** | **Ffiseg Uned 3 (Cymru)** |
| | **3430N70-1** | **Gwyddoniaeth: Dwyradd Uned 7 (Cymru)** |
| | **3440N40-1** | **Gwyddoniaeth Gymhwysol: Gradd Unigol Uned 4 (Cymru)** |
| | **3445N50-1** | **Gwyddoniaeth Gymhwysol: Dwyradd Uned 5 (Cymru)** |

**Asesiad Ymarferol**

Asesir yr asesiad ymarferol yn allanol gan CBAC a bydd yn cael ei gynnal yn y cofnod amser a nodir yn y llyfryn amserlenni arholiadau yn ystod hanner cyntaf tymor y gwanwyn (Ionawr – Chwefror). Argymhellir ei gynnal ym mlwyddyn olaf yr astudiaeth. Bydd rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno nifer y tasgau a nodir yn y tabl isod.

Gellir trosglwyddo marciau'r Asesiad Ymarferol dros oes y fanyleb.

Caiff pob tasg ei chwblhau mewn dwy sesiwn 60 munud yr un – Adran A ac Adran B. Bydd Adran A ac Adran B yn ddau bapur cwestiynau ar wahân.

| Cymhwyster | Rhif yr Uned | Papur Adran A | Papur Adran B |
|---|---|---|---|
| Bioleg (Un dasg) | Uned 3 (3400N30) | 3400N30-1A | 3400N30-1B |
| | | 3400N30-1C | 3400N30-1D |
| Cemeg (Un dasg) | Uned 3 (3410N30) | 3410N30-1A | 3410N30-1B |
| | | 3410N30-1C | 3410N30-1D |
| Ffiseg (Un dasg) | Uned 3 (3420N30) | 3420N30-1A | 3420N30-1B |
| | | 3420N30-1C | 3420N30-1D |
| Gwyddoniaeth (Dwyradd) (Dwy dasg) | Uned 7 (3430N70) | 3430N70-1A | 3430N70-1B |
| | | 3430N70-1C | 3430N70-1D |
| | | 3430N70-1E | 3430N70-1F |
| Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd) (Dwy dasg) | Uned 5 (3445N50) | 3445N50-1A | 3445N50-1B |
| | | 3445N50-1C | 3445N50-1D |
| | | 3445N50-1E | 3445N50-1F |
| Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol) (Un dasg) | Uned 4 (3440N40) | 3440N40-1A | 3440N40-1B |
| | | 3440N40-1C | 3440N40-1D |

Anfonir cyfarwyddiadau i athrawon/swyddogion arholiadau ym mis Medi a gellir eu hagor ar ôl eu derbyn. Ni ddylid datgelu'r cynnwys i unrhyw un nad yw'n ymwneud â pharatoi'r asesiad. Dylai'r swyddog arholiadau storio'r ddogfen hon yn ddiogel pan nad yw'r athro/athrawes yn ei defnyddio.

Cyhoeddir cyfarwyddiadau cydosod yn ddiweddarach yn nhymor yr Hydref a rhaid i'r Swyddog Arholiadau eu storio'n ddiogel **tan y dyddiad y caniateir eu hagor.** Eto, dylai'r swyddog arholiadau storio'r ddogfen hon yn ddiogel pan nad yw'r athro/athrawes yn ei defnyddio

Bydd y papurau cwestiynau ar gyfer pob tasg ar gael i'r ganolfan ym mis Ionawr.

Bydd y Swyddog Arholiadau yn rhoi'r nifer priodol o bapurau cwestiynau ar gyfer bob grŵp i'r athro ar y **dyddiad a drefnwyd** ar gyfer yr asesiad.

**Adran A – Cael canlyniadau**

Caiff ymgeiswyr weithio mewn grwpiau bach o hyd at dri ymgeisydd. Dylai athrawon sicrhau bod gan bob grŵp ddigon o le i weithio a bod pellter rhesymol rhwng pob grŵp. Mae angen i bob grŵp allu defnyddio'r cyfarpar a ddyrannwyd heb i neb darfu arnynt – un set o gyfarpar i bob grŵp. Dylid cynnal Adran A dan lefel gyfyngedig o reolaeth a dylai aelod o staff sy'n

gyfrifol am addysgu TGAU Gwyddoniaeth oruchwylio bob amser. Gall canolfannau ddefnyddio labordai ychwanegol, ar yr amod bod un o athrawon y pwnc ar gael i oruchwylio pob grŵp drwy'r amser. Dylai cefnogaeth dechnegol fod ar gael rhag ofn y bydd ei hangen.
Os nad yw ymgeiswyr yn llwyddo i gael canlyniadau yn Adran A, mae'n dderbyniol i'r athro roi canlyniadau heb eu fformatio iddynt. Ni fydd CBAC yn darparu'r canlyniadau hyn, dylai'r ganolfan eu cynhyrchu wrth dreialu'r dasg. Cynhwyswch y canlyniadau heb eu fformatio a manylion yr ymgeiswyr sydd wedi cael data heb eu fformatio ar y ffurflen 'Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Ganolfannau' sydd i'w chael yn y ddogfen "Cyfarwyddiadau Cydosod".

**Adran B – Dadansoddi a gwerthuso canlyniadau**
Rhaid cynnal yr adran hon dan lefel uchel o reolaeth, h.y. ymgeiswyr i weithio ar eu pennau eu hunain, pellter priodol rhyngddynt ac o dan oruchwyliaeth. Gellir gwneud hyn yn y labordy neu mewn neuadd arholiadau. Caniateir i aelod o staff sy'n gyfrifol am TGAU Gwyddoniaeth oruchwylio Adran B, er y gall canolfannau ddewis defnyddio goruchwylwyr allanol. **Rhaid i ymgeiswyr gael mynediad at eu papur cwestiynau adran A, gan fod angen y canlyniadau a gasglwyd o'r sesiwn gyntaf arnyn nhw er mwyn ateb y cwestiynau yn adran B.**

Dylai staff y ganolfan atgoffa ymgeiswyr na chaniateir iddyn nhw drafod unrhyw agwedd ar yr asesiad ag unrhyw un drwy unrhyw ddull cyfathrebu. Bydd gweithredoedd o'r fath yn arwain at ymchwiliad i gamymddwyn gan ymgeisydd.

**Ar ôl y prawf**

Ni ddylai athrawon gael mynediad at y papurau cwestiynau wedi'u cwblhau ar ôl i'r asesiadau eu hunain ddigwydd.

**Rhestr wirio anfon asesiadau**
**Rhaid i ganolfannau wirio:**

- bod asesiad ar gyfer pob ymgeisydd y nodwyd ei fod yn bresennol ar y gofrestr presenoldeb,
- bod enwau a rhifau'r ymgeiswyr ar yr asesiadau'n cyd-fynd â'r manylion ar y gofrestr presenoldeb
- bod y taflenni "Gwybodaeth sy'n Ofynnol gan Ganolfannau" ar gyfer pob tasg wedi'u cwblhau wedi'u cynnwys gyda'r asesiadau
- bod tasgau ar gyfer pob cymhwyster Gwyddoniaeth Gymhwysol mewn pecynnau ar wahân
- bod y gofrestr wedi'i hamgáu a bod copi wedi'i wneud a'i gadw yn y ganolfan

Dylid anfon pob asesiad wedi'i gwblhau i WJEC/CBAC, Uned A16/17, Ffordd Gwaelod Y Garth, Stad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5XF erbyn y dyddiad a nodwyd yn y ddogfen cyfarwyddiadau i athrawon ac ar yr amserlen.

**Ystyriaeth Arbennig**
Dylid cyflwyno ffurflen JCQ 10 i wneud ceisiadau am ystyriaeth arbennig.